Bwrdd Taliadau Cynulliad
Cenedlaethol Cymru
—
Remuneration Board of the
National Assembly for Wales

2 Chwefror 2017

Annwyl Aelod Cynulliad,

Ar 26 Ionawr, cyfarfu'r Bwrdd Taliadau i drafod gwaith y dyfodol a fydd yn llywio ein hystyriaethau am weddill ein cylch gwaith, ac i ystyried yr adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad, yn arbennig er mwyn gwneud cynigion ynglŷn â chyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, costau swyddfa a gwariant ar lety preswyl ar gyfer 2017-18.

**Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad**

***Cyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad 2017-18***

Trafododd y Bwrdd y cynnydd blynyddol yng nghyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad a fyddai'n berthnasol o fis Ebrill 2017. Ystyriwyd cyd-destun ehangach tâl ledled y DU yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae cyflogeion yn y sector preifat ar gyfartaledd yn parhau i weld cynnydd go iawn mewn cyflogau, gan fod newidiadau mewn cyflogau canolrifol yn parhau i fod yn uwch na chwyddiant a dyfarniadau tâl canolrifol dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn werth 2 y cant. Y rhagolwg cyfatebol ar gyfer cyflogau yn y sector cyhoeddus yw 1 y cant.

Y llynedd, defnyddiodd y Bwrdd y ffigurau diweddaraf a oedd ar gael ar gyfer enillion blynyddol canolrifol staff amser llawn yng Nghymru (fel y'u mesurir gan yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion) i uwchraddio cyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad. Roeddem yn cytuno mai hwn oedd y mynegai mwyaf addas o hyd er mwyn pennu cynnydd priodol mewn cyflogau ar gyfer 2017-18.

Rhyddhawyd ffigurau dros dro yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ar gyfer 2016 ym mis Hydref 2016, sef 2.1 y cant.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 0300 200 6331
E-bost/Email: Taliadau@cynulliad.cymru
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Rydym felly'n cynnig cynyddu cyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad ar gyfer 2017-18 2.1 y cant yn unol â ffigurau dros dro 2016 yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ar gyfer enillion canolrifol yng Nghymru.

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i gynnal adolygiad i ddatblygiad cyflog a gyrfa staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, o ystyried rhai o'r materion a godwyd gyda'r Bwrdd hyd yma. Bydd y Bwrdd yn dechrau ar yr adolygiad hwn yn ddiweddarach eleni.

A fyddech cystal â rhoi eich ymateb inni i'r cynnydd a gynigiwyd erbyn 10 Mawrth 2017, er mwyn llywio ein trafodaethau yn ein cyfarfod canlynol.

### *Costau swyddfa ar gyfer 2017-18*

Trafododd y Bwrdd y lwfans costau swyddfa ac a yw'n parhau'n briodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18. Ystyriodd y Bwrdd nifer o ffactorau, gan gynnwys adborth diweddar gan Aelodau, gwariant Aelodau ar gostau swyddfa, costau rhentu swyddfa ledled Cymru a chwyddiant.

Rydym yn cynnig cynyddu'r lwfans costau swyddfa 1.2 y cant yn unol â'r amcangyfrif ar gyfer y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Tachwedd 2016.

A fyddech cystal â rhoi eich ymateb inni i'r cynnydd a gynigiwyd erbyn 10 Mawrth 2017, er mwyn llywio ein trafodaethau yn ein cyfarfod canlynol.

### *Lwfansau preswyl ar gyfer 2016-17*

Trafododd y Bwrdd y gwariant ar lety preswyl ar gyfer 2017-18 gan ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys cymariaethau â dulliau gwaith a ddilynir gan ddeddfwrfeydd eraill ledled y DU. O ran y cymorth ar gyfer Aelodau'r ardal allanol, penderfynodd y Bwrdd gynnal rhagor o waith ymchwil i brisiau rhent ac ymgynghori ynglŷn â'r mater cyn bo hir, yn ôl pob tebyg ym mis Chwefror.

Mae nifer fach o Aelodau yn yr ardal allanol sydd wedi bod yn gwasanaethu ers amser hir yn dal i gael ad-daliad mewn cysylltiad â thaliadau llog morgais ar eu heiddo eu hunain. Caniateir i Aelodau yn y sefyllfa hon hawlio hyd at £882 tuag at gost gwaith adnewyddu hanfodol i'w heiddo.

Penderfynodd y Bwrdd y dylid cadw uchafswm o £882 ar gyfer gwaith atgyweirio hanfodol.

Trafododd y Bwrdd hefyd ddarpariaeth ar gyfer gofalwyr o fewn y lwfans gwariant ar lety preswyl. Cytunodd y Bwrdd y dylid cadw uchafswm o £120 y mis ar gyfer y costau rhentu i Aelodau sydd â dibynyddion.

**Gwaith yn y dyfodol**

Byddwn yn comisiynu gwaith ymchwil yn fuan i ddod i ddeall yn well pa agweddau a allai rwystro unigolion rhag sefyll i gael eu hethol i'r Cynulliad, a pha agweddau o fewn cylch gwaith y Bwrdd sy'n denu pobl i'r swydd. Rydym yn bwriadu comisiynu arbenigwyr i gynnal y gwaith ymchwil hwn, a byddwn yn cyhoeddi tendr yn fuan ar gyfer ymgeiswyr sydd â diddordeb mewn gwneud cais.

Yn unol â'n hymrwymiad i adolygu'n rheolaidd berfformiad y Bwrdd ac effaith ein penderfyniadau, byddwn yn cynnal adolygiadau o'r darpariaethau presennol a gafodd eu cynnwys yn y Penderfyniad gyfer y Pumed Cynulliad ac yn holi a yw'r egwyddorion presennol, sy'n sail i'r Penderfyniad, yn addas i'r diben.

Rydym yn gobeithio gofyn ichi beth yw eich barn am y Penderfyniad presennol a sut y gallwn ei wella. Yn ystod y gwanwyn byddwn yn cyhoeddi holiadur ynglŷn â pha mor effeithiol yw'r Penderfyniad presennol a'r egwyddorion sy'n sail i ddarpariaeth cymorth ariannol, ac yn benodol a yw'r dull gweithredu presennol yn rhoi cyfarwyddyd rhy gaeth.

Byddwn yn sicrhau bod yr Aelodau, eu staff cymorth a rhanddeiliaid allweddol eraill yn gwbl ymwybodol o'r camau a gymerwn, ac yn cael cyfle i gymryd rhan ar adegau allweddol.

Rydym yn parhau i gwrdd â llawer ohonoch yn anffurfiol, a gobeithio y gallwn ddod i gyfarfodydd grŵp eich plaid. Rydym yn ddiolchgar am eich enwebiadau ar gyfer Grwpiau Cynrychioli Aelodau'r Cynulliad a'r staff cymorth, ac edrychwn ymlaen at eu cyfarfod yn nhymor y gwanwyn.

Caiff y llythyr hwn ei gyhoeddi ar ein gwefan hefyd, yn ôl ein harfer arferol.

Os hoffech drafod y mater hwn gyda mi, neu gydag un o'm cyd-aelodau ar y Bwrdd, mae croeso ichi gysylltu â mi drwy'r ysgrifenyddiaeth.

Cofion gorau

**Y Fonesig Dawn Primarolo**
**Cadeirydd**
**Y Bwrdd Taliadau/Remuneration Board**